

Torri'r Cylch Dermatitis Digidol: Pwy, beth, pryd, pam a sut golchi traed

*Gan Sara Pedersen BSc (Anrh) BVetMed CertCHP DBR MRCVS
Arbenigwraig RCVS mewn lechyd a Chynhyrchu Gwartheg, Farm
Dynamics Ltd, Y Bontfaen, Bro Morgannwg*

Pam golchi traed?

Mae golchi traed yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o atal a rheoli dermatitis digidol (DD) ochr yn ochr â gwell glanweithdra a rheoli slyri a thrin briwiau yn gynnar. Ar ôl i fuwch gael ei heintio â DD, os na fydd yn cael ei thrin yn fuan gyda gwrthfotig priodol ar wyneb y briw fe fydd yn cael ei heintio am oes fel arfer. Ar ôl yr heintiad bydd y bacteria DD yn tyllu yn ddwfn i'r croen a'u cau eu hunain yno, gan aros ynghwsg. Dan yr amgylchiadau cywir bydd y briwiau yma yn dod yn weithredol eto, gan achosi iddo dorri allan mewn mannau eraill a thaenu'r heintiad. Felly prif rôl y baddon traed yw atal yr hen friwiau difrifol yma rhag ail ddeffro (Llun Un) yn ychwanegol at helpu i gadw'r traed yn lanach sydd hefyd yn lleihau heintiadau newydd.

Traed pwy ddylwn i eu golchi a phryd?

Yn aml iawn dim ond y buchod godro sy'n cael golchi eu traed, ond, mae'n bwysig cynnwys y buchod sych a'r stoc ifanc hefyd. Mae heffrod sydd wedi eu heintio cyn lloea fwy na dwywaith mor debygol o gael DD yn eu llaethiad cyntaf, yn ogystal â chynhyrchu 350kg yn llai o laeth a chymryd yn hwy i gyfloi mewn cymhariaeth â heffrod nad ydynt wedi cael DD.

Bydd amllder y golchi traed yn amrywio o fferm i fferm a dylai gael ei ffurfio a'i adolygu fel rhan o gynllun iechyd y fuches gyda milfeddyg y fferm, ond, yn gyffredinol, amlaf yn y byd, gorau yn y byd. Pan fydd y risg yn uchel, ar rai ffermydd bydd angen golchi traed bob dydd i gadw'r heintiad dan reolaeth. Wrth brynu stoc felly mae'n bwysig golchi eu traed wrth iddynt gyrraedd fel rhan o gamau bioddiogelwch y fferm i leihau'r risg o gyflwyno rhywogaeth newydd o'r DD i'r fferm.

Ble ddylwn i olchi traed?

Mae dylunio baddon traed yn allweddol wrth wneud y broses yn haws i chi, ac yn bwysicaf oll, y buchod. Mae baddon traed yn gweithio ar ei orau pan fydd yn cael ei gynnwys ym mhatrwm arferol y fuwch fel nad oes fawr o amharu ar lif y buchod, gydag allanfa'r parlwr yn ddewis poblogaidd.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Mae'n hanfodol bod y buchod yn symud trwy'r baddon traed yn llyfn i leihau'r llygru trwy ysgarthion ac i gynnwys y baddon gael ei golli yn ogystal â sicrhau bod cyn lleied â phosibl o amharu ar lif y buchod. Er eu bod yn boblogaidd iawn, mae baddon plastig caled gyda gryniau amlwg ar y gwaelod yn anghyfforddus i fuchod gerdded trwyddo ac nid ydynt yn cael eu hargymell. Yn hytrach mae baddonau traed parhaol, wedi eu llunio wrth adeiladu yn well o ran bod yn fwy cyfforddus i'r buchod ac o ran llif y gwartheg. Nid yw buchod yn hoffi camu i fyny nac i lawr i fath, felly dylai gwaelod y baddon fod ar yr un lefel â'r manau mynd i mewn/allan a rhoi gafael i'r fuwch wrth iddi gerdded, er y dylid osgoi baddonau gyda gwaelod gryniau. Dewis arall yw mat rwyber ar waelod y baddon a bydd hynny yn cynnig gafael ac yn fwy cyfforddus wrth i'r fuwch gerdded trwodd, yn arbennig os yw hi'n gloff.

Er bod y farn yn gymysg o ran defnyddio baddon golch cyntaf, yn gyffredinol teimlir ei bod yn fwy effeithiol cael un baddon cemegol, hwy yn hytrach na dau faddon ar wahân. Defnyddir baddonau golchiad cyntaf i leihau'r llygru ar y baddon cemegol, ond, dangosodd rhai astudiaethau bod y gwrthwyneb yn digwydd gyda chynnydd mewn halogiad ysgarthol yn y baddon cemegol. Yn ychwanegol, os yw'r droed yn wlyb wrth fynd i mewn i'r baddon cemegol mae'n llai abl i amsugno'r hylif. Mae baddonau golchiad cyntaf hefyd yn ychwanegu swm sylweddol o ddŵr at y system slyri.

Mae hyd, lled a dyfnder y baddon hefyd yn allweddol. Argymhellir y dylai pob troed gael ei throchi o leiaf ddwywaith, dair gwaith os yn bosibl, sy'n gofyn am fath traed 3.7-4 metr o hyd. Bydd lleihau lled y baddon i 60-70cm yn lleihau'r costau llenwi gan adael i'r buchod gerdded trwyddo yn gyfforddus (Ffigwr Un). Er bod baddonau traed lletach yn cael eu defnyddio yn aml i hwyluso symudiad y buchod (Llun Dau), gall y rhain fod yn gostus i'w llenwi os byddant yn ddigon hir er mwyn trochi'r nifer cywir o weithiau.

Bydd gosod paneli ochr ar oledd ar ymyl y baddon yn helpu i sicrhau bod y buchod yn rhoi eu traed yn yr hylif yn hytrach nag ar yr ochrau yn ogystal â lleihau faint o'r hylif sy'n cael ei golli trwy dasgu. Bydd grisiau uchel i mewn ac allan hefyd yn lleihau faint o'r hylif sy'n cael ei golli ac yn cynyddu'r nifer o drochiadau a geir, ac argymhellir grisiau 26cm. Er mwyn sicrhau bod y traed yn cael eu trochi yn llwyr yn yr hylif dylid ei lenwi i ddyfnder o ~10cm.

Yn ogystal ag ystyried llif y buchod wrth gynllunio'r baddon traed mae'n bwysig rhoi sylw i'w leoliad a pha mor hawdd yw ei lenwi, ei wagu a'i lanhau. Hawsaf yn y byd yw hi i'w gynnal a'i gadw, amlaf yn y byd y bydd yn cael ei ddefnyddio. Gall twll gwagu llydan helpu i wagu yn gyflym a'i lanhau yn haws (Llun Tri) er bod baddonau traed hollol awtomatig ar gael i wneud golchi traed yn broses ddidrafferth (Llun Pedwar).

Beth ddylwn i ei ddefnyddio?

Er bod golchi traed yn arfer cyffredin ychydig iawn o astudiaethau clinigol cadarn sy'n bodoli ar effeithiolrwydd y gwahanol gyfryngau a ddefnyddir fel arfer. Wrth benderfynu beth i'w ddefnyddio dylid ystyried y canlynol: rhwyddineb ei ddefnyddio, diogelwch y cynnyrch, gwaredu, costau ac yn bwysicach, a yw'n gwneud y gwaith.

Mae'n gamgymeriad cyffredin meddwl bod cyfryngau golchi traed yn 'driniaethau', ond, yn bennaf maent yn gweithredu fel diheintyddion. Rhaid ystyried yn ofalus wrth ddewis y cyfrwng mwyaf addas a'r crynhoad ar gyfer y fferm. Dylid penderfynu hyn ar y cyd â milfeddyg y fferm, gydag adolygiadau cyson i sicrhau bod y drefn yn effeithiol. Ymhlith y diheintyddion a brofwyd yn effeithiol wrth eu defnyddio mewn baddonau traed mae 2-5% formalin a 5% sylffad





FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

copr. Gwelwyd nad yw asid peracetig a golchion parlwr hypochlorid yn effeithiol wrth reoli DD.

Er bod formalin a sylffad copr yn effeithiol, a hwy a ddefnyddir amlaf, mae nifer o gamau y dylid eu hystyried os byddant yn cael eu defnyddio. Mae'n hysbys bod formalin yn garsinogen ac felly dylid cymryd camau iechyd a diogelwch digonol er mwyn i'r rhai sy'n ei drin neu yn ei ymyl osgoi bod yn agored iddo. Mae'r camau yn cynnwys defnyddio anadlydd wrth ymdrin ag o a sicrhau bod y baddonau traed mewn ardaloedd sydd wedi eu hawyru'n ddigonol. Rhaid ystyried hefyd sut i waredu'r formalin a'r sylffad copr i'r system reoli slyri er mwyn lleihau'r risg o lygredd amgylcheddol ac, yn achos sylffad copr, gweld metelau trwm yn crynhoi yn y pridd os bydd slyri yn cael ei chwalu ar borfa wedyn.

Pa gemegolyn bynnag a ddefnyddir mae'n bwysig cofio ei fod yn annhebygol o weithio os na all gyrraedd yr ardal darged. Ni fydd potensial llawn y cyfrwng yn cael ei wireddu os bydd traed y buchod yn fudron neu na fyddant yn cael eu trochi yn ddigon aml yn yr hylif. Trwy sicrhau bod llif y buchod trwy'r baddon traed yn dda a thawel gellir osgoi'r perygl y bydd y cyfrwng yn tasgu ar byrsiau/cadeiriau'r buchod a heintio'r llath neu greu risg o fastitis.

Rhaid mesur y baddon traed yn ofalus i bennu ei gynhwysedd pan fydd yn llawn fel bod digon o'r cyfrwng yn cael ei ychwanegu i lwyddo i gael y crynhoed a ddymunir. Yn gyffredinol dylai'r baddon traed gynnwys un litr ar gyfer pob buwch sy'n mynd trwyddo h.y. rhaid i faddon 200 litr gael ei newid i bob 200 o fuchod. Ond, bydd hyn yn dibynnu ar lefel yr halogiad yn y baddon a hefyd ar y cyfrwng a ddefnyddir.

Er ei fod yn heintus iawn, gellir rheoli dermatitis digidol yn effeithiol mewn buches trwy ddull integredig. Mae hyn yn cynnwys gwell hylendid i leihau bod yn agored i heintiadau trwy reoli slyri yn well, trin briwiau yn gynnar ac effeithiol gyda gwrthfotig ar yr wyneb a golchi traed i leihau heintiadau ac atal briwiau cronig rhag ailddigwydd. Er mwyn i olchi traed fod yn effeithiol, mae dyluniad yn allweddol i gael y buchod i lifo yn dda, lleihau llygredd a hefyd sicrhau bod y peth pwysicaf yn mynd i'r baddon – y droed!

Llun Un: Prif nod golchi traed yw diheintio traed i leihau heintiadau newydd, yn ogystal ag atal heintiadau cronig, anweithredol (chwith) rhag ailymddangos yn heintiadau gweithredol (yn y cylch ar y dde).





FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Llun Dau: Gall baddonau traed lletach gynorthwyo llif y buchod ond mae'n angenrheidiol iddynt fod yn 3.7-4m o hyd er mwyn i'r traed gael eu trochi ddigon o weithiau.



Llun Tri: Rhaid i'r baddon traed gael ei ddylunio o ran rhwyddineb ei wagu a'i lanhau, gall twll gwagu mawr helpu yn hyn o beth.






FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Llun Pedwar: Mae baddonau traed awtomatig sy'n gwagu ac ail lenwi ar ôl nifer benodol o fuchod ar gael.



Ffigwr Un: Y dyluniad a argymhellir i olchi traed yn effeithiol ar sail canllawiau Cynllun Dairyland.





FARMING
connect
cyswilt
FFERMIO



Cwmwl Amasghydol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Fuddhurlid mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government